ARWEINIAD ******GWEITHDREFN		
Teitl:	**Rheoli Troseddwyr Rhyw a Throseddwyr Treisgar**	
Maes Arfer / Busnes:	**Amddiffyn Pobl Agored i Niwed**	
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	**Diogelu'r Cyhoedd**	
Cyhoeddwyd Gyntaf:	**07/01/15**	
Adolygwyd Ddiwethaf:	**17/01/20**	
Dyddiad yr adolygiad Nesaf:	**Ionawr 2021**	Mae'r ddogfen hon yn gymwys i gyflogeion:
Rhif Fersiwn:	**11**	Prif Gwnstabl

AMCAN GWEITHDREFN HEDDLU DE CYMRU:

Rhoi arweiniad i'r Heddlu ar reoli Troseddwyr Rhywiol, Troseddwyr Treisgar ac Unigolion a Allai fod yn Beryglus (PDPs) yn effeithiol.

CANLLAWIAU:

Dylai Swyddogion a Staff Heddlu De Cymru gyfeirio at Arfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017), Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Throseddwyr Treisgar, sydd ar gael yma:

https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/managing-sexual-offenders-and-violent-offenders/

ASESIAD RISG CYFFREDINOL:

GWEITHDREFN:

Mae Tîm Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Throseddwyr Treisgar (MOSOVO) Heddlu De Cymru yn gyfrifol am reoli Troseddwyr Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) (gweler Canllawiau MAPPA), yn bennaf Categori 1 – Troseddwyr Rhyw Cofrestredig sy'n ddarostyngedig i ofynion hysbysu o dan Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, Pobl a Allai fod yn Beryglus (PDP) nad ydynt yn droseddwyr MAPPA ac sy'n destun llwybr PDP (gweler y weithdrefn ar wahân), Troseddwyr sy'n destun Gorchmynion Troseddwyr Treisgar a Gorchmynion Perygl Rhywiol. Mae pob un o'r Troseddwyr y soniwyd amdanynt yn destun ViSOR (Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw).

Mae cyfrifoldebau Timau MOSOVO sy'n benodol i'r rôl yn cynnwys y canlynol:

- Cadarnhau bod troseddwyr yn byw yn y cyfeiriadau neu'r lleoedd a nodwyd, neu'n ymweld â nhw'n aml – gweler **Gweithdrefn ar gyfer Pennu Amserlenni Ymweld**
- Cadarnhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth a'r gorchmynion llys (e.e. sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion hysbysu, amodau mechnïaeth neu drwydded - gweler **Gorchmynion Llys**
- Cyflawni'r ddyletswydd gofal i'r cyhoedd er mwyn rheoli'r risgiau a berir gan

droseddwyr

- Monitro risgiau troseddwyr, nodi newidiadau i ffactorau risg a sicrhau y cymerir camau priodol i reoli a, lle bo angen, adolygu risgiau - gweler **Systemau Rheoli Risgiau Gweithredol (ARMS)**
- Casglu gwybodaeth er mwyn nodi neu adolygu risgiau, asesu a rheoli troseddwyr a throseddwyr cysylltiedig eraill, ac ar gyfer prosesau rheoli cudd-wybodaeth
- Canfod troseddau
- Cyflawni'r ddyletswydd gofal i droseddwyr, gan gynnwys atgyfeirio at asiantaethau eraill am lesiant, mentora a chymorth.
- Rheoli Gwybodaeth – Casglu, coladu, cofnodi a rhannu gwybodaeth Troseddwyr drwy systemau'r Heddlu, gan gynnwys ViSOR (cronfa ddata Cofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw) a Niche, er mwyn gwneud cyfraniad effeithiol at ddiogelwch y cyhoedd. Yn ogystal â hyn, rhannu gwybodaeth ag asiantaethau MAPPA a'r broses o ddatgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i Droseddwyr MAPPA - gweler **Safonau ViSOR** a **Chanllawiau MAPPA**
- Adolygiadau - Adolygiad Rheoli Mewnol yr Heddlu – Comisiynu Adolygiad Rheoli Mewnol yr Heddlu (PIMR) a fydd yn adolygu cyfraniad yr heddlu at reoli Troseddwyr Rhyw Cofrestredig sydd wedi cyflawni troseddau difrifol pellach – gweler **Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) y Coleg Plismona (ADOLYGIADAU)**
- Adolygiad o Ofynion Hysbysu Amhenodol – Adolygu Troseddwyr Rhyw Cofrestredig cymwys gan wneud ceisiadau i adolygu'r gofynion hysbysu amhenodol – **gweler Adolygiad o Ofynion Hysbysu Amhenodol**

Datgelu

Rhaid i swyddogion / staff Heddlu De Cymru gynnal ymchwiliad effeithiol a rhagweithiol ym mhob achos lle y rhoddir gwybod am achos o drosedd neu yr amheuir bod achos o'r fath wedi digwydd.

DEDDFWRIAETH A RHEOLIADAU:

Deddf Troseddau Rhywiol 2003

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/42/contents

Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)

https://mappa.justice.gov.uk/connect.ti/MAPPA/groupHome

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (Mawrth 2015)